DIGWYDDIADAU HERIOL - COD YMDDYGIAD YR WYDDFA

Mae Heriau Elusennol gan gynnwys digwyddiadau grwpiau bach yn dod â mwynhad a boddhad mawr i filoedd o bobl bob blwyddyn yn ogystal â chodi miliynau o bunnoedd at achosion da. Fodd bynnag, mae nifer cynyddol o ddigwyddiadau yn fygythiad difrifol i'r amgylchedd mynyddig bregus ac i fwynhad defnyddwyr eraill. Mae'r cod hwn yn cynnig canllawiau 'penodol i safle' ar gyfer trefnwyr digwyddiadau neu grwpiau, a'r bwriad yw lleihau effaith eu digwyddiad a helpu eu cyfranogwyr i gael y gorau o'u profiad.

- Ystyrir mai trac Llanberis yw'r llwybr mwyaf cynaliadwy ar gyfer digwyddiadau. Ceir disgrifiad manwl o'r llwybr ar wefan y Parc Cenedlaethol:

  http://www.eryri-npa.gov.uk/visiting/walking/Hard-Mountain-Walks/llanberis-path

  Nid yw'n llawer hirach na llwybrau'r PyG a'r Mwynwyr yn nhermau amser, ac mae mwy o gyfleusterau ar gael arno, gan gynnwys caffi hanner ffordd - er cofiwch, yn gyffredinol dim ond rhwng y Pasg a mis Hydref mae hwn yn agored. Mae'r caffi ar y copa yn gweithredu yn ystod yr un cyfnod, ond nid oes sicrwydd ei fod ar gael bob amser.
  - Mae parcio, hyd yn oed dim ond i ollwng cyfranogwyr ym Mhen y Pass, yn achosi aflonyddwch yn y maes parcio cyhoeddus a'r maes parcio lle cynigir gwasanaeth bws y Sherpa. Felly rydym yn eich annog i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn drwy barcio yn un o'r meysydd parcio mawr yn Nant Peris neu yn Llanberis - mae'r maes parcio ym Mhen y Pass yn llawn yn rheolaidd erbyn 8 o'r gloch y bore yn ystod misoedd yr haf. Gofynnwn i chi osgoi parcio wrth Deras y Faenol, Llanberis achos ardal breswyl yw hon. Cydymffurfiwch os gwelwch yn dda gyda'r Gorchymyn Rheoli Traffig sy'n gwahardd cerbydau rhag mynd y tu hwnt i'r grid gwartheg ar ddiwedd y stryd hon. Mae'r llwybr troed trwy'r coed cyfagos hefyd yn ddewis ymarferol i gael mynediad at y llwybr.
  - Mae cyfleusterau toiled yn aml yn gyfyngedig, yn enwedig ym Mhen y Pass - felly cofiwch barchu cyfleusterau cyhoeddus a'u glanhau ar ôl i chi eu defnyddio. Peidiwch â llenwi biniau, toiledau a sinciau â gwastraff a dillad neu offer gwersylla wedi'u gwaredu.
  - 'Ewch' i'r lle chwech / toiled yn ddigon buan cyn i chi gyrraedd. Peidiwch â gadael eich carthion ar y mynydd - gall achosi problemau amgylcheddol difrifol a gall fod yn beryglus ac yn annymunol i gerddwyr eraill.
  - Paratowch yn iawn. Trefnwch eich canolfan reoli / derbynfa cyn y digwyddiad - peidiwch â defnyddio mwynderau cyhoeddus a rennir, megis y maes parcio, yr ystafell aros bysiau na'r cyntedd ym Mhen y Pass, oni bai eich bod wedi cael caniatâd penodol gan y Parc Cenedlaethol neu weithredwr y caffi. * Ni roddir caniatâd fel rheol.
  - Peidiwch â defnyddio unrhyw draciau preifat, heb wyneb caled neu barc mewn modd sy'n rhwystro ffyrdd cyhoeddus, gatiau, ffermydd neu anheddau yn yr ardal.
  - Peidiwch ag addurno'r mynydd gyda chofebion, placiau, baneri nac unrhyw ddeunyddiau eraill sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad. Mae'n bosibl bod y rhain yn edrych yn ddigon del ar y pryd, ond maent yn ddolur llygad i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr eraill y mynydd ac fe ddylid sicrhau eu bod wastad yn ddinod. Unwaith y byddwch wedi cwblhau eich gweithgareddau, tynnwch yr holl arwyddion dros dro rydych wedi'u codi. Mae rhai grwpiau'n ceisio cludo amrywiol bethau i fyny i'r copa fel rhan o'u digwyddiad - baneri, dodrefn, arwyddion, byrddau neu eitemau eraill. Cofiwch y gall y rhain beri problemau a bod yn beryglus i gerddwyr eraill pan fydd hi'n wyntog a byddem yn cynghori yn ei erbyn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i beth bynnag sy'n mynd i fyny ddod i lawr!

- Cadwch at y llwybrau troed – fel arfer y rhain yw'r ffordd gyflymaf a mwyaf diogel i fyny'r mynydd. Mae crwydro `oddi ar y llwybr` yn achosi erydiad mynydd difrifol a gall fod yn beryglus ar unrhyw adeg. Defnyddiwch eich mapiau.
- Cofiwch fod hwn yn amgylchedd gwaith. Parchwch ffermwyr lleol - osgowch darfu ar dda byw a gadewch y giatiau fel y cewch hyd iddyn nhw. Dylai cŵn fod ar dennyn bob amser pan fyddwch yn agos at dda byw.
- Mae newid eich dillad yn gyhoeddus yn wrthgymdeithasol. Byddwch yn ystyriol – chwiliwch am rywle addas i newid neu ewch â lliain mawr gyda chi os oes angen.
- Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi, gan gynnwys eich gwastraff organig (e.e. canol afalau, croen oren a banana, bagiau te, ac ati) a deunyddiau eraill megis papur lapio, tuniau, poteli dŵr a bonion sigaréts. Efallai mai dim ond un bag bin sydd gennych, ond mae i gyd yn cyfrif. Mae gwaredu gwastraff a chlirio sbwriel ar yr Wyddfa yn anodd ac yn gostus iawn i'r Parc Cenedlaethol a'r cymunedau lleol.

Pethau ychwanegol i'w hystyried:

- Diogelwch: Dylai'r tywydd fod yn ffactor bwysig wrth wneud penderfyniadau ar gyfer eich ymweliad. Mae'r Wyddfa yn amgylchedd mynyddig lle gall y tywydd newid yn gyflym ac yn gyffredinol bydd yn dirywio wrth i chi fynd yn uwch. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw llygad ar ragolygon y tywydd rai diwrnodau cyn eich ymweliad fel eich bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl. Mae gan y Swyddfa Dywydd wefan benodol ar gyfer yr Wyddfa a gellir dod o hyd iddo naill ai drwy wefan y Parc Cenedlaethol neu'n uniongyrchol o wefan y Swyddfa Dywydd:

  http://www.metoffice.gov.uk/loutdoor/mountainsafety/snowdonia/snowdonia_latest

  Edrychwch ar y tudalennau Diogelwch Mynydd ar wefan y Parc Cenedlaethol.

  Os bydd tywydd garw ystyriwch Gynllun B. - llwybr ar lefel is yn yr ardal. Mae nifer o'r rhain ar ein gwefan.

- Cariwch ddillad ychwanegol a darpariaethau digonol h.y. bwyd a dŵr neu ddiodydd addas a Phecyn Cymorth Cyntaf.
- Ystyriwch gyfyngiadau eich grŵp o ran ffitrwydd ac iechyd cyffredinol.

Nid ras yw eich digwyddiad. Felly parchwch a chefnogwch eich cyd-gyfranogwyr, defnyddwyr eraill, a'r cymunedau lleol. Cymerwch amser i fwynhau eich amgylchedd ac rydym yn gobeithio y mwynhewch eich amser gyda ni ar yr Wyddfa.